

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg y Cwm

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ddiogel a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at eraill. Maent yn teimlo bod staff yn eu cefnogi'n dda, yn gwrando arnynt ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryder sydd ganddynt.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod sesiynau dysgu. Ychydig iawn ohonynt sy'n cychwyn yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg a medrau cymdeithasol sy'n cyfateb i, neu'n uwch na'r disgwyl am eu hoed a'u cam datblygu. Er hyn, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth, y dirprwy a gweddill y tîm addysgu'n cydweithio'n frwdfrydig i annog y disgyblion i siarad Cymraeg ac i fod yn falch o'u hunaniaeth Gymreig. Maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n anelu at sicrhau bod disgyblion yn gwneud eu gorau ar bron bob achlysur.

Mae'r cwricwlwm yn eang a diddorol i ddisgyblion, ac yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn dda a'u hannog i fwynhau dysgu. Er bod medrau mathemategol y rhan fwyaf yn datblygu'n dda, cyfyng iawn yw'r cyfleoedd a gânt i'w cymhwyso mewn sefyllfaoedd go iawn o fewn eu themâu. Er bod disgyblion hwnt ac yma'n dysgu ychydig am effaith yr Ail Ryfel Byd ar bobl Bonymaen, cyfyng yw'r profiadau dysgu a gynllunnir yn benodol iddynt ddysgu am, a gwerthfawrogi, cyfoeth hanes a daearyddiaeth eu hardal leol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol, ar y cyfan, yn briodol ac yn rhoi darlun lled gywir o'i chryfderau. Er hyn, nid ydynt bob amser yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i adnabod yn union yr agweddau penodol sydd angen eu gwella.

Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr ysgol â rhieni, Cylch Meithrin Meini Bach, ac ysgolion lleol eraill. Mae'r perthnasoedd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn dechrau ysgol gynradd ac uwchradd mor ddidrafferth â phosibl.

## Argymhellion

**A1 Mireinio gweithdrefnau hunanwerthuso fel eu bod yn hwylus i'w gweithredu ac yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i adnabod yn union yr agweddau penodol sydd angen eu gwella**

**A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm**

**A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu penodol i ddisgyblion ddysgu am, a gwerthfawrogi, cyfoeth hanes a daearyddiaeth eu hardal leol**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg y Cwm |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 128 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 108 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 17.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 25% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 21.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.